# Y WYBODAETH RYDYCH CHI'N EI RHOI I NI



Os byddwch yn defnyddio ein gwasanaeth...




Bydd Barnardo's yn gofyn am rywfaint o'ch manylion.




Byddwn yn cofnodi eich manylion, pam rydym yn eich helpu chi, a'r gwaith rydym yn ei wneud.



Byddwn yn cadw'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni'n ddiogel.




Dim ond staff Barnardo's fydd yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni.



Ond weithiau, bydd angen i ni rannu rywfaint o'ch gwybodaeth.

**teipiwch rif yma**

Credwch mewn plant
Barnardo's
Cymru

Rhifau Elusen Gofrestredig Barnardo's: 216250 and SC037605 21352shc20

# Y WYBODAETH
# RYDYCH CHI'N EI RHOI I NI

**Bydd Barnardo's yn gofyn am rywfaint o'ch manylion. Mae rhai pethau y mae angen i ni eu gwybod a rhai pethau gallwch ddewis eu dweud wrthym.**

**Byddwn yn cofnodi'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni, y rheswm rydym yn eich helpu chi, a manylion y gwaith rydym yn ei wneud gyda chi.**

Dim ond staff Barnardo's

a staff o (ychwanegwch enw'r comisiynydd os yw'n rheolydd data neu'n rheolydd data ar y cyd)

fydd yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Weithiau, bydd angen i ni rannu rywfaint o'ch gwybodaeth, er enghraifft, i'ch cadw'n ddiogel neu i gael cymorth i chi gan bobl eraill. Efallai y bydd angen i ni hefyd rannu eich gwybodaeth â'r bobl sy'n talu am y gwasanaeth, neu'r bobl sy'n gwneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaeth da.

Bydd Barnardo's yn cadw'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni'n ddiogel. Caiff ei dinistrio pan na fydd ei hangen arnom mwyach.

Os ydych am weld pa wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch chi, siaradwch â ni.

**a staff o (ychwanegwch**

Credwch mewn plant
Barnardo's
Cymru

Rhifau Elusen Gofrestredig Barnardo's: 216250 and SC037605 21352shc20